



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o [www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org) ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------


1 Samuel 8, 9, 10



- 1 Roedd Samuel yn arwain pobl Israel yn ddoeth. Roedd o'n dilyn cyfraith Duw ac yn ufudd iddo. Pan oedd Samuel wedi mynd yn hen, rhoddodd y gwaith o arwain Israel i'w feibion, Joel ac Abeia.




- 2 Ond roedden nhw'n twyllo er mwyn cael arian, ac yn derbyn breib am roi dyfarniad annheg. Fell dyma arweinwyr Israel yn mynd i weld Samuel i gwyno.



- 3 Fe ddwedon nhw wrth Samuel, "Ti'n mynd yn hen a dydy dy feibion di ddim yn dilyn dy esiamp di. Felly gad i ni gael brenin i'n harwain, yr un fath â'r gwledydd eraill i gyd." Ond doedd y cais yma am frenin ddim yn plesio Samuel o gwbl.




- 
- 4 Fe rybuddiodd Samuel y bobl beth fyddai'n digwydd petai nhw'n cael brenin, "Bydd yn cymryd eich meibion a'u gwneud nhw'n filwyr. Bydd eraill yn gweithio ar ei dir e, ac yn casglu'r cnydau. Bydd yn cymryd eich merched hefyd i gymysgu persawr, i goginio ac i bobi bara iddo. Bydd yn cymryd eich caeau, a'ch gwinllannoedd a'ch gerddi olewydd gorau. Bydd yn hawlio treth o un rhan o ddeg o'ch grawn a'ch gwin a'i roi i weision y palas a'r swyddogion eraill. Byddwch chi'n gaethweision iddo! Bryd hynny byddwch chi'n cwyno am y brenin wnaethoch chi ei ddewis, a fydd Duw ddim yn gwrandu arnoch chi." Ond doedd y bobl ddim am wrando ar Samuel. "Na," medden nhw, "dŷn ni eisiau brenin. Dŷn ni eisiau bod yr un fath â'r gwledydd eraill i gyd. Dŷn ni eisiau brenin i lywodraethu arnon ni, a'n harwain ni i ryfel."



- 
- 5 Ar ôl gwrandu ar bopeth ddwedodd y bobl, dyma Samuel yn mynd i ddweud am y cwbl wrth yr ARGLWYDD. "Gwna beth maen nhw'n ei ofyn," meddai'r ARGLWYDD wrth Samuel, "a rho frenin iddyn nhw."



- 
- 6 Yna dyma Samuel yn dweud wrth ddynion Israel, "Ewch adre i gyd."



- 
- 7 Roedd yna ddyn yn perthyn i lwyth Benjamin o'r enw Cish ac roedd ganddo fab o'r enw Saul, oedd yn ddyn ifanc arbennig iawn. Doedd neb tebyg iddo yn Israel gyfan. Roedd yn dalach na phawb arall. Roedd rhai o asennod Cish wedi mynd ar goll felly dwedodd wrth Saul, "Cymer un o'r gweision hefo ti, a dos i chwilio am yr asennod."



- 
- 8 Buodd y ddau'n chwilio'n ddyfal, ond doedd dim golwg o'r asennod. Roedd Saul eisiau mynd adre ond dwedodd ei was wrtho, "Mae yna ddyn sy'n proffwydo yn byw y dre acw. Mae parch mawr ato, am fod popeth mae'n ei ddweud yn dod yn wir. Falle y bydd e'n gallu dweud wrthon ni pa ffordd i fynd."



- 
- 9 Aeth y ddau i fyny i'r dre. Ac wrth fynd i mewn dyna lle roedd Samuel yn dod i'w cyfarfod. Roedd e ar ei ffordd i addoli.




- 
- 10 Roedd yr ARGLWYDD wedi dweud wrth Samuel y diwrnod cynt fod Saul yn mynd i ddod yno: "Tua'r adeg yma fory, dw i'n mynd i anfon dyn o lwyth Benjamin atat ti. Dw i eisiau i ti ei eneinio fe i arwain fy mhobl Israel. Bydd e'n achub fy mhobl o afael y Philistiaid."



- 
- 11 Gofynnodd Saul i Samuel, "Alli di ddweud wrtho i ble mae'r proffwyd yn byw?" "Fi ydy'r proffwyd," atebodd Samuel. "Dos o'm blaen at yr allor. Cewch chi'ch dau fwyta gyda mi heddiw, wedyn fory cei fynd ar dy ffordd fory. Paid poeni am yr asennod sydd wedi bod ar goll ers tridiau. Maen nhw wedi dod o hyd iddyn nhw. Pwy wyt ti'n feddwl mae Israel i gyd yn dyheu amdano? Ie, ti ydy e, a theulu dy dad." Ond dyma Saul yn ateb, "Sut mae hynny'n bosib? I lwyth Benjamin dw i'n perthyn, y llwyth lleiaf yn Israel! Ac mae fy nheulu i yn un o deuluoedd mwyaf cyffredin Benjamin."



- 
- 12 Yna dyma Samuel yn mynd â Saul a'i was i'r neuadd fwyta. Roedd yna tua 30 o bobl wedi eu gwahodd i gyd.



- 
- 13 Ben bore wedyn dyma Samuel yn galw ar Saul: "Cod, i mi dy anfon di ar dy ffordd." Pan ddaethon nhw i gyrion y dre, dyma Samuel yn dweud wrth Saul, "Dywed wrth dy was am fynd yn ei flaen. Dw i eisiau i ti aros i mi roi neges gan Dduw i ti."



- 
- 14 Dyma Samuel yn cymryd potel o olew olewydd a'i dywallt ar ben Saul. Yna ei gyfarch e gyda chusan, a dweud, "Mae'r ARGLWYDD yn dy eneinio di i arwain ei bobl e, Israel. Byddi'n arwain ei bobl ac yn eu hachub nhw o afael y gelynion sydd o'u cwmpas. A dyma beth fydd yn digwydd i ddangos i ti mai'r ARGLWYDD sy wedi dy ddewis di i arwain ei bobl:



- 
- 15 Yn gyntaf byddi'n cyfarfod dau ddyn ger Seltzach a byddan nhw'n dweud: 'Mae'r asennod wyt ti wedi bod yn chwilio amdany'n nhw wedi dod i'r golwg'; wedyn ger dderwen Tabor byddi'n cyfarfod tri dyn ar eu ffordd i addoli Duw yn Bethel - byddan nhw'n dy gyfarch ac yn rhoi dwy dorth i ti. Cymer nhw ganddyn nhw. Ac yn olaf yn Gibeath byddi'n cyfarfod criw o broffwydi. A bydd Ysbryd yr ARGLWYDD yn dod yn rymus arnat tithau, a byddi'n proffwydo gyda nhw."



- 
- 16 Digwydodd popeth yn union fel roedd Samuel wedi dweud.



- 
- 17 Dyma Samuel yn galw pobl Israel at ei gilydd. Dewisiwyd Saul i fod yn frenin, ond roedd o'n cuddio yng nghanol yr offer. Dyma nhw'n rhedeg yno i'w nôl a'i osod i sefyll yn y canol. Roedd e'n dalach na phawb arall o'i gwmpas.



- 
- 18 A dyma Samuel yn dweud wrth y bobl, "Ydych chi'n gweld y dyn mae'r ARGLWYDD wedi ei ddewis i chi? Does neb tebyg iddo." A dyma'r bobl i gyd yn gweiddi, "Hir oes i'r brenin!" Wedyn dyma Samuel yn esbonio i'r bobl yr holl drefn o gael brenin. Wedyn dyma Samuel yn anfon y bobl i gyd adre. Ond roedd yna rai, rhyw ddyinion da i ddim, yn dweud, "Sut all Saul ein hachub ni?" Roedden nhw'n ei wfftio, a ddaethon nhw ddim ag anrheg iddo. Ond ddwedodd Saul ddim byd am y peth



- 
- 19 Cyfieithwyd gan  
[www.beibl.net](http://www.beibl.net)



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported licence.

[www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org)

---